Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
Together we will end homelessness

# We Can End Homelessness in Wales

More than 12,000 households across Wales are facing the very worst forms of homelessness – sleeping on sofas, living in cars, stuck in temporary accommodation, or sleeping on our streets.

Right now, there are over 10,000 people trapped in temporary accommodation but less than 1% of private rented homes in Wales are affordable for households relying on benefits.[1] The reality and urgency of our national crisis is clear.

Behind the stats, the reality is that there are thousands of adults and children, each with their own personal story of homelessness and the trauma that comes from not having a home. Having a safe, affordable home is essential for people's health, wellbeing, access to opportunities and ability to play an active role in our communities.

Ending homelessness transforms people's lives but it also relieves pressures on local authority budgets, our NHS and other public spending. Improving outcomes for individuals improves outcomes for Wales.

Homelessness is not inevitable and we can all play a role in driving forward change so that everyone in Wales has the secure home that they need.

It's clear that we must take action now for those who are already facing homelessness, and to prevent homelessness in Wales from rising higher. We know that without bold action, **homelessness in Wales will rise by 24% by 2041**.[2]

## About Crisis

Crisis is the national charity for people experiencing homelessness. We help people directly out of homelessness, research into the causes and solutions, work with professionals to develop best practice, and campaign for the social changes needed to solve it altogether. **We know that together we can end homelessness.**



### Archie's Story

"I experienced homelessness when I was 18. I lost my mother to cancer when I was 13. I was a young carer, looking after my father and siblings. I couldn't do it anymore. Life and trauma, it just all hit me.

I sofa surfed, I slept in hostels. I was in a vulnerable state. I needed more support. It's a constant fight to have your needs met. A lot of the time, I was trying to be seen as a human being.

Crisis supported me not only to have a studio flat of my own but to build a life. They funded my teaching course – I now have a direction in my life. I know what I want to do. I'm happy with the person I am."

[1] Crisis, *Analysis of Zoopla data*, Affordable homes for renters needing housing benefits – Crisis UK | Flourish
[2] Crisis and Herriot Watt, *The Homelessness Monitor: Wales 2025*, the-homelessness-monitor-wales-2025.pdf

## Homes and Homelessness in Brycheiniog Tawe Nedd

While there have been slight decreases in recent months, homelessness presentations remain high in every local authority area that is part of Brycheiniog Tawe Nedd. Despite Wales delivering record-levels of affordable homes in recent years, there remains a disconnect between need and what is being realised – especially as the cost-of-living crisis continues to bite. **It is clear that, this Senedd term, we will need to push harder and faster on boosting our supply of social homes.**

For the local authorities represented in your constituency, statutory data on homelessness is set out in the table below - please note that local authority figures will often not include people who are trapped in forms of hidden homeless:

| | Number of homeless households (24/25) | | Additional affordable homes delivered (24/25) |
|---|---|---|---|
| Powys | 399 | *1 in every 150 households* | 241 |
| Neath Port Talbot | 582 | *1 in every 100 households* | 104 |
| Swansea | 990 | *1 in every 110 households* | 230 |

In addition to this, significant numbers of people are at risk of future homelessness unless we take bold action in this Senedd term. **In Brycheiniog Tawe Nedd, 27% of areas are areas of high housing deprivation** (WIMD, 2025). Housing deprivation reflects a range of concerns around hazardous homes, overcrowding and affordability – all of which can increase someone's risk of homelessness.

## Working With You To End Homelessness

Ahead of the election we were pleased to see that across the spectrum of parties, election manifestos emphasised the need to boost Wales' housing supply. We hope that creating genuinely affordable housing (particularly social homes) will now form a key cornerstone for collaborative working over the coming months and years. We hope to continue to work closely with you to ensure that Wales has the homes we need to protect people from homelessness.

Crisis works closely with expert academics, people with lived experience of homelessness and sector partners to produce positive, viable solutions to end homelessness.[3]

We are especially keen to work with MSs on **a renewed strategy to end homelessness**, which includes:

1. Cross-sector working to **prevent homelessness** so that we can get upstream of homelessness for as many people as possible.
2. Ensuring that people who are experiencing homelessness have the **support that they need,** when they need it.
3. Delivering **genuinely affordable homes** across Wales, particularly social homes.

**We would welcome the opportunity to meet with you to discuss homelessness in Brycheiniog Tawe Nedd and to better understand how we can best support you over the coming years. Please do get in touch with Lauren on lauren.caley@crisis.org.uk**

[3] Crisis, *We Can End Homelessness in Wales*, crisis_walesmanifesto_digital_final-1.pdf

# Gallwn Ddod Â Digartrefedd I Ben Yng Nghymru

Mae mwy na 12,000 o aelwydydd ledled Cymru yn wynebu'r ffurfiau gwaethaf o ddigartrefedd – maent yn cysgu ar soffas, yn byw mewn ceir, yn gaeth i lety dros dro, neu'n cysgu ar ein strydoedd.

Ar hyn o bryd, mae dros 10,000 o bobl yn gaeth mewn llety dros dro bob mis. Ac eto, mae llai na 1% o gartrefi rhent preifat yng Nghymru yn fforddiadwy i aelwydydd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau ac mae rhestrau aros tai cymdeithasol yn hir.[4]

Y tu hwnt i'r ystadegau, y gwirionedd yw bod miloedd o oedolion a phlant, pob un gyda'u stori bersonol o ddigartrefedd a'r trawma a ddaw yn sgil diffyg cartref. Mae cael cartref diogel, fforddiadwy yn hanfodol i iechyd a llesiant pobl, eu mynediad i gyfleoedd a'r gallu i chwarae rôl weithredol yn ein cymunedau.

Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn trawsnewid bywydau pobl, ond mae hefyd yn lliniaru'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol, ein gwasanaeth iechyd gwladol a gwariant cyhoeddus arall. Mae gwella canlyniadau i unigolion yn gwella canlyniadau i Gymru.

Nid yw digartrefedd yn anochel a gallwn oll chwarae rhan mewn sbarduno newid fel bod gan bawb yng Nghymru y cartref diogel sydd ei angen arnynt.

Mae'n glir bod yn rhaid i ni gymryd camau nawr ar gyfer y rheini sydd eisoes yn wynebu digartrefedd, ac i atal digartrefedd yng Nghymru rhag codi'n uwch. Rydym yn gwybod, heb gamau beiddgar, **y bydd digartrefedd yng Nghymru yn codi 24% erbyn 2041**.[5]

## Ynghylch Crisis

Mae Crisis yn elusen genedlaethol i bobl sy'n profi digartrefedd. Rydym yn helpu pobl yn uniongyrchol allan o ddigartrefedd, yn ymchwilio i'r achosion a'r atebion, yn gweithio gyda phobl broffesiynol i ddatblygu arferion gorau, ac yn ymgyrchu dros y newidiadau cymdeithasol sydd eu hangen i'w ddatrys yn gyfangwbl. **Rydym oll yn gwybod y gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd gyda'n gilydd.**



### Stori Archie

"Profais ddigartrefedd pan yn 18 oed. Collais fy mam i ganser pan oeddwn yn 13 oed. Roeddwn yn ofalwr ifanc, yn edrych ar ôl fy nhad a'm brodyr a chwiorydd. Nid oeddwn yn gallu ei wneud mwyach. Bywyd a thrawma, gwnaeth fy nharo i gyd.

Cysgais ar wahanol soffas, cysgais mewn hosteli. Roeddwn mewn cyflwr bregus. Roedd angen rhagor o gefnogaeth arnaf. Roedd yn frwydr barhaus i gael fy anghenion wedi'u hateb. Llawer o'r amser, roeddwn yn ceisio cael fy ngweld fel person dynol.

Mae Crisis wedi fy nghefnogi nid yn unig i gael fflat stiwdio i mi fy hun ond i adeiladu bywyd. Mae wedi ariannu fy nghwrs addysgu – bellach mae gennyf gyfeiriad yn fy mywyd. Rwy'n gwybod beth rwyf eisiau ei wneud. Rwy'n hapus gyda'r person ydwyf fi."

---

[4] Crisis, *Analysis of Zoopla data*, Affordable homes for renters needing housing benefits – Crisis UK | Flourish

[5] Crisis and Herriot Watt, *Y monitor digartrefedd: Cymru 2025*, y-monitor-digartrefedd-cymru-2025.pdf

Crisis
Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
Together we will end homelessness

## Cartrefi a Digartrefedd yn Brycheiniog Tawe Nedd

Er y bu gostyngiad bach mewn misoedd diweddar, mae nifer y digartref yn parhau yn uchel ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n rhan o Brycheiniog Tawe Nedd. Er gwaethaf y ffaith bod Cymru wedi darparu'r lefelau uchaf erioed o gartrefi fforddiadwy mewn blynyddoedd diweddar, mae datgysylltiad o hyd rhwng yr angen a beth sy'n cael ei ddarparu – yn enwedig gan fod yr argyfwng costau byw yn parhau i wasgu. **Mae'n glir, yn y tymor Senedd hwn, y bydd angen i ni wthio'n galetach ac yn gynt ar roi hwb i'n cyflenwad o gartrefi cymdeithasol.**

Ar gyfer yr awdurdodau lleol a gynrychiolir yn eich etholaeth, mae'r data statudol ar ddigartrefedd wedi'u nodi yn y tabl isod – nodwch na fydd ffigurau awdurdodau lleol yn aml yn cynnwys pobl sy'n gaeth o fewn ffurfiau o ddigartrefedd cudd:

| | Nifer yr aelwydydd digartref (24/25) | | Cartrefi fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd (24/25) |
|---|---|---|---|
| Powys | 399 | *1 o bob 150 aelwyd* | 241 |
| Castell-nedd Port Talbot | 582 | *1 o bob 100 aelwyd* | 104 |
| Abertawe | 990 | *1 o bob 110 aelwyd* | 230 |

Yn ogystal â'r uchod, mae nifer sylweddol o bobl mewn perygl o ddigartrefedd yn y dyfodol oni bai ein bod yn cymryd camau beiddgar yn nhymor y Senedd hon. **Yn Brycheiniog Tawe Nedd, mae 27% o ardaloedd yn rhai sydd ag amddifadedd tai uchel** (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2025). Mae amddifadedd tai yn adlewyrchu amrywiaeth o bryderon ynghylch cartrefi peryglus, gorlenwi a fforddiadwyedd - y gall pob un ohonynt gynyddu'r perygl o ddigartrefedd yn y dyfodol.

## Gweithio Gyda Chi I Ddod Â Digartrefedd I Ben

Cyn yr etholiad, roedden ni'n falch o weld bod maniffestos yr etholiad, ar draws y sbectrwm gwleidyddol, yn pwysleisio'r angen i gynyddu cyflenwad tai Cymru. Rydyn ni'n gobeithio y bydd cyflenwi tai gwirioneddol fforddiadwy (yn enwedig cartrefi cymdeithasol) nawr yn gonglfaen allweddol ar gyfer cydweithio dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Rydyn ni'n gobeithio parhau i weithio'n agos gyda chi i gyd i gefnogi uchelgeisiau i sicrhau bod gan Gymru'r cartrefi sydd eu hangen arnom i amddiffyn pobl rhag digartrefedd.

Mae Crisis yn gweithio'n agos gydag academyddion arbenigol, pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd a phartneriaid sector i gynhyrchu atebion cadarnhaol, hyfyw i ddod â digartrefedd i ben.[6]

Rydym yn arbennig o awyddus i weithio gydag Aelodau'r Senedd **ar strategaeth newydd i ddod â digartrefedd i ben,** sy'n cynnwys:

1. Gweithio ar draws sectorau i **atal digartrefedd** fel y gallwn gynnig cymorth cynharach ac atal digartrefedd i gynifer o bobl â phosibl.
2. Sicrhau bod pobl sy'n profi digartrefedd yn cael **y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt**, pan fyddant ei hangen.
3. Darparu **cartrefi gwirioneddol fforddiadwy** ledled Cymru, yn enwedig cartrefi cymdeithasol.

**Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chi i drafod digartrefedd yn Brycheiniog Tawe Nedd ac i ddeall yn well y ffordd orau i'ch cefnogi dros y blynyddoedd nesaf. Cysylltwch â ni drwy:**
lauren.caley@crisis.org.uk

[6] Crisis, *Gallwn ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru*, crisis_walesmanifesto_cym_digital_final-1.pdf